**Cyngor Cymuned Betws y Coed**

**Cofnodion cyfarfod 11eg o Fawrth 2024**

**Yn bresenol** – Ffiona Jones (Cadeirydd) Janet Charlton, Phil Roberts, Chris Jones, Sian Godbert,Cllr Elizabeth Roberts, Haf Jones ( Clerc )

1. **Ymddiheuriadau** – Bedwyr ap Gwyn, Neil Pringle, PCSO Michelle Farrell

2. **Datgan diddordeb mewn unrhyw eitem ar yr agenda** – Dim

Daeth Arwyn Evans, Pennaeth Datblygiadau Grwp Cynefin i'r cyfarfod a rhoi diweddariad ar y datblygiad tai yn Pentre Du. Mae caniatad cynllunio mewn lle i 5 tŷ; 1 x 4 ty 4 llofft ar gyfer tai cymdeithasol â 4 o dai canolradd ar gyfer teuluoedd mewn gwiath ac yn ennill cyflog o rhwng £15k a £40k y flwyddyn.

Rhagwelyr dechrau'r gwaith o adeiladu yn gynnar yn 2025 ac yn debyg o gymryd blwyddyn i'w gwbwlhau.

3. **Cofnodion cyfarfod mis Chwefror** – cafwyd rhain yn gywir.

4. **Materion yn codi o'r cofnodion:-**

- **Erw Hedd** – Cyfrifoldeb mynwentydd yn ngofal Awdurdodau Claddu sef Cyngor Conwy. Problem hefo'r tap dwr wedi'w adrodd i'r Adran a chyfrifoldeb.
- **Pont y Pair** – Clerc i ofyn am ddiweddariad am y llysdyfiant.
- **A5 cyflwr gwyneb y ffordd** – peth gwaith dros dro wedi'w wneud.
- Cafwyd cadarnhad gan yr ariannwyr y gall **Menter Fan y Llan** symud ymlaen gan gyflogi gweithiwr neu gall fod yn berson hunan gyflogedig. Clerc i ffurfio hysbyseb.
- **Grant Cymunedol** – newidiadau wedi'w gwneud i'r ffurflen gais a fydd ar gael yn gynnar yn mis Ebrill.
- **Hyfforddiant Cynllun Llifogydd** – manylion wedi'w cylchredeg ac fe fydd un Cynghorwr/wraig yn mynychu'r cwrs yn Venue Cymru, Llandudno.

5. **Materion ariannol a thaliadau**.

Craffwyd cysoniad banc, taliadau ac incwm mis Chwefror a chafwyd yn gywir. Amserlen taliadau wedi'w pharatoi a'u rhoddwyd awdurdod i dalu.

Archwilio Cymru – Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol a barn archwilio – Archwiliad Cymmwys wedi'w derbyn ar sail nad oedd y cyfrifon wedi'w cymeradwyo erbyn 30 o Fehefin (cymeradwywyd ar y 4ydd o 'Orffennaf)

Mae adroddiad yr Archwilydd a chyfrifon 2022/23 ar gael i'w craffi rhwng 9 a 4, Llun – Iau am 31 diwrnod o'r 11eg o Fawrth drwy gysylltu a'r Clerc. Mae'r wybodaeth wedi'w arddangos ar wefan y Cyngor ac yn y bwrdd hysbysebion ger Cae Llan a Pentre Du.

6. **Rhaeadr Ewynnol/Cae Llan/Neuadd Goffa**

**Rhaeadr Ewynnol**

DRAFT

3786 o ymwelwyr yn ystod Chwefror; bydd y safle â chriw o 29ain o Fawrth nes 3ydd o Dachwedd 2024 rhwng 10 a 3 o'r gloch pob dydd;  cyfraith ailgylchu newydd yn y gweithle yn dechrau o 6 Ebrill 2024 sy'n golygu y bydd angen didoli gwastraff i'w ailgylchu.

**Neuadd Goffa**

Y Clwb Blodau wedi ailgychwyn yn fisol ar b'nawn Mercher a Merched y Wawr ar nos Iau hefyd yn fisol. Dau ddigwyddiad wythnosol newydd wedi archebu'r neuadd sef Grwp Ukulele yn cychwyn ar nos Fawrth, Brazilian Jui Jitsu ar nos Iau; Jiwdo'n parhau ar nos Wener.

**Cae Llan**

Mae ail Ddylunydd Tirwedd wedi ymweld a'r safle ac rydym yn aros am ddyluniadau cysyniad ar gyfer prosiect Lleodd Lleol ar gyfer Natur.  Dim digwyddiadau wedi archebu'r cae ar gyfer mis Mawrth.

Bydd ffens bren llorweddol yn cael ei chodi o gwmpas y Dderwen hynafol sydd yn pydru gyda bylbiau a blodau yn cael eu plannu ofewn y ffens.

**Er gwybodaeth**

**Ffordd Coed Cynhelir** - yn ddiweddar mae Swyddogion Gorfodaeth Parcio wedi bod yn rhoi ticedi parcio ar geir wedi parcio ar dir oddiar y ffordd i'r chwith o'r llinellau melyn. Clerc wedi gofyn am fap o berchnogaeth y tir gan Cyngor Conwy a Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Biniau 'Sbwriel** – mae'r biniau glas o gwmpas y pentre' â thu hwnt wedi'w dileu dros dro.  Sicrwydd wedi'w dderbyn y bydd rhain yn dychwelyd mewn da bryd i'r tymor ymwelwyr.

**Baw ci a biniau baw ci** – cynnydd amlwg o faw ci ar y palmentydd rhwng Pont y Pair a Ffordd yr Orsaf ac amharodrwydd cerddwyr cwm i ddefnddyio'r biniau i'r pwrpas penodol. Gellir defnyddio'r biniau 'sbwriel i roi'r bagiau a'r cynnwys ynddynt.  Cyngor Cymuned yn gweithio ar ymgyrch i atgoffa ymwelwyr am ymddygiad parchus a chyfreithlon.

**Sgip Gymunedol** – ychydig iawn o ddefnyddydd o'r sgip yn Ffordd yr Orsaf a wnaed ddechrau mis Mawrth. Nid yw Cyngor Conwy'n derbyn archebion ar gyfer sgips ar ol diwedd mis Mawrth felly mae'r Clerc yn ymchwilio darpariaeth arall. Bydd y gwasanaeth sgip symudol ar yr ail ddydd Sadwrn o pob mis yn Maes Parcio Glasdir Llanrwst yn parhau.  Mae'n rhaid bwcio o flaen llaw.  Ewch i wefan Cyngor Conwy/Ailgylchu a Gwastraff/Canolfannau ailgychu gwastraff y cartref.

**Hyfforddaiant** – bydd pedwar aelod o staff yn mynychu hyfforddiant Cymorth Cyntaf yn Glasdir, Llanrwst sydd yn rhad ac am ddim wedi'w ariannu gan Ffyniant Bro.

**Gorchymyn Gwarchod Coed** – gorchymyn dros dro wedi'w wneud ar goedlan yn Craig, Betws y Coed.

DRAFT

**Gwasanaethau GP** – mae'r Cyngor Cymuned yn falch o dderbyn y newyddion bod contractor a GP's wedi'w apwyntio.

**Dyddiad y cyfarfod nesa'** – Nos Lun, 8fed o Ebrill am 7 o'r gloch yn y Neuadd Goffa.

DRAFT